

Teitl y Swydd: Swyddog Cyfranogiad Criced
Oriau Gwaith: llawn amser
Adrodd i: Arweinydd Rhaglenni Criced
Cyflog: £24,000 y flwyddyn
Lleoliad: Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd/Port Talbot

Eisiau helpu i lunio dyfodol criced yng Nghymru?

Dyma eich cyfle i fod yn rhan o rywbeth cyffrous. Rydym yn chwilio am aelod tîm brwdfrydig, trefnus, ac sy'n canolbwyntio ar bobl i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglenni criced cynhwysol ac ysbrydoledig. Drwy gydweithio â chydweithwyr yn ein tîm Rhaglenni Criced cenedlaethol newydd, byddwch yn helpu i ddarparu cyfleoedd drwy sesiynau hyfforddi i gyfranogwyr, gan ddenu a chadw chwaraewyr, gwirfoddolwyr a swyddogion – gan wneud criced yn fwy hygyrch ac yn fwy pleserus i bawb, ym mhob man.

Byddwch yn cydweithio ag ysgolion, grwpiau cymunedol, clybiau, partneriaid, ac rhanddeiliaid ariannu allweddol i helpu i gyflwyno sesiynau criced, cystadlaethau, digwyddiadau, ac i ddatblygu ffyrdd newydd cyffrous o gymryd rhan yn y gêm. O gefnogi criced i blant mewn ysgolion i weithio ar brosiectau criced cymunedol ac ysbrydoli cyfranogwyr a gwirfoddolwyr, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth ddod â'n gweledigaeth o'n harwyddair o "Criced, Gêm i Bawb" yn fyw.

Pam y byddwch chi'n ei garu:

- Byddwch yn rhan o fudiad cenedlaethol sy'n tyfu criced yng Nghymru.
- Gwaith amrywiol, ystyrlon gyda gwir effaith gymunedol.
- Cyfle i ddysgu, datblygu, a gwneud gwahaniaeth yn y byd chwaraeon.

Gyda'n gilydd, Arwain, Gofalu – ein gwerthoedd sy'n llywio popeth a wnawn. Os ydych chi'n credu mewn ysbrydoli cyfranogiad, creu cyfleoedd croesawgar, a helpu pobl i gysylltu drwy griced, rydym am glywed gennych.

Criced yng Nghymru – Creu Ffyrdd Hudolus o Gymryd Rhan yn y Gêm

Mae Criced Cymru wedi lansio strategaeth newydd gyffrous a deinamig, a ddatblygwyd ar y cyd â Chriced Morgannwg, i sicrhau bod criced yng Nghymru yn ffynnu, nawr ac yn y dyfodol. Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae ein hymrwymiad i Criced, Gêm i Bawb, gan sicrhau. Mae pobl o bob oed a chefnidir yn cael ffyrdd cyffrous ac ystyrlon o ymgysylltu â'r

gamp. Drwy gynnig rhaglenni clir, deniadol ac arloesol, ein nod yw gwella'r profiad criced a datblygu ein cynnig cymunedol.

Er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth feiddgar hon, rydym yn recriwtio Swyddogion Cyfranogiad Criced brwdfrydig a rhagweithiol i ymuno â'n tîm cynyddol.

Bydd yr unigolyn hwn yn cefnogi datblygiad a chyflwyno amrywiaeth eang o raglenni criced sy'n denu ac yn cadw chwaraewyr, gwirfoddolwyr a swyddogion, gan helpu i greu amgylchedd criced bywiog a deinamig.

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan hanfodol yn ein tîm cyfranogiad, gan adrodd i Arweinydd Rhaglenni Criced. Byddant yn cydweithio â chymunedau, clybiau, ysgolion, cynghreiriau a rhanddeiliaid i helpu i weithredu cyfleoedd criced cynhwysol ac arloesol ledled Cymru.

Prif Gyfrifoldebau

- Datblygu, cefnogi ac ehangu pob ffurf ar griced drwy gyflwyno rhaglenni partner allweddol.
- Mae'r rhaglenni'n cynnwys: Rhaglenni Ysgolion a Stryd Chance to Shine, Rhaglenni ALN ac Anabledd Lord's Taverners, rhaglenni cymunedol Wicketz Lord's Taverners, Canolfannau Sefydliad MCC, a rhaglenni a noddir gan ECB mewn ysgolion, cymunedau a lleoliadau clybiau i blant.
- Cydweithio ag Arweinydd Rhaglenni Criced i ddatblygu cyfleoedd a strwythurau i hwyluso ac i sicrhau bod Criced yn Gêm i Bawb.
- Cyflwyno ymweliadau ag ysgolion, hyfforddiant i athrawon, Gwobrau Arweinwyr Ifanc a mentrau eraill i annog ymgysylltiad ysgolion a chynaliadwyedd hyfforddiant criced mewn ysgolion.
- Mentora athrawon, hyfforddwyr a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno gweithgareddau criced o ansawdd uchel, gan gefnogi athrawon/gwirfoddolwyr cymunedol gyda adnoddau perthnasol e.e. Adnoddau Athrawon Chance to Shine.
- Cyflwyno a chefnogi cystadlaethau criced o fewn (mewnol) ac rhwng (allanol) ysgolion sy'n cymryd rhan – Bydd hyn yn cynnwys trefnu a chyflwyno: Gwyliau Ysgolion Dynamos, Chance to Compete, gwyliau cynhwysol ALN a Chystadlaethau Criced Bwrdd.

- Sicrhau ein bod yn cyflawni targedau perfformiad allweddol (KPI) partneriaid allweddol ac yn cofnodi'r holl ddata ar bortholau TG partneriaid perthnasol. Sicrhau bod cofnodion ar y porth yn gywir, yn amserol ac yn rheolaidd.
- Cydweithio â'r clybiau a nodwyd i adeiladu eu gallu i redeg a threfnu cyfleoedd ychwanegol i ieuenctid, megis Rhaglenni Cenedlaethol ECB, gan arwain at dimau clybiau sy'n chwarae mewn cynghreiriau criced ieuenctid strwythuredig a gwyliau.
- Ymgysylltu â phartneriaid ehangach sy'n gallu cyfrannu at ganlyniadau strategol Criced Cymru ac ychwanegu gwerth at gynnig Criced Cymru (e.e. adrannau Datblygu Chwaraeon Awdurdodau Lleol, clybiau cymunedol lleol, partneriaid cymunedol, EYST, Street Games ac ati).

Sgiliau ac Arbenigedd Anghenreidiol

- Profiad o weithio ym maes chwaraeon, datblygiad cymunedol, neu gyflwyno rhaglenni.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu cryf.
- Profiad o ddefnyddio portholau rheoli data.
- Ymateb rhagweithiol a chadarnhaol, ac yn gweithio'n dda fel rhan o dîm.
- Gallu gweithio gyda amrywiaeth o randdeiliaid a chefnogi mentrau cynhwysol dan arweiniad cymunedol.
- Brwdfrydedd dros greu profiadau cadarnhaol ym maes chwaraeon.
- Gwybodaeth am griced ar lawr gwlad neu gymunedol yng Nghymru neu'r DU.
- Cyfarwyddyd â chefnogi gwirfoddolwyr a chydlynu digwyddiadau.
- Hyder wrth ddefnyddio technoleg i gefnogi cyflwyno rhaglenni a chyfathrebu.
- Rhuglder yn y Gymraeg, neu ewyllys i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.

Cymwysterau Angenrheidiol

- Meddu ar gymhwyster Hyfforddwr Craidd ECB neu Lefel 2, neu fod yn gweithio tuag at un. Mae cymhwyster hyfforddi criced Sylfaenol neu Lefel 1 yn hanfodol

- Mynychu Cyrsiau Diogelu ac Amddiffyn Plant ECB
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf.
- Gwiriad DBS Estynedig (ar ôl penodi) wedi'i gofrestru gyda'r ECB.

Bydd hyfforddiant Chance to Shine a Lord Taverners yn cael ei ddarparu i'r ymgeisydd llwyddiannus. Bydd hyfforddiant perthnasol arall hefyd yn cael ei gynnig yn ôl yr angen i gefnogi'r rôl. Bydd dillad priodol a chyfarpar yn cael eu darparu i'r ymgeisydd llwyddiannus.

Mae'r swydd hon yn cael ei chefnogi gan ECB, Lord Taverners, Chance to Shine, Sefydliad MCC a Criced Cymru. Cynigir y rôl gychwynnol ar gontract tymor penodol yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus.

Ein Hymrwymiad i Gynhwysiant a Lles

Mae gwerthoedd Criced Cymru – Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu – wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar y sefydliad, gan lywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ac sicrhau cyfleoedd teg i bawb. Rydym yn annog ceisiadau'n arbennig gan unigolion sydd wedi'u tangynrychioli ym maes criced, gan gynnwys menywod, cymunedau amrywiol ethnig, ac unigolion ag anableddau.

Rydym hefyd yn ymroddedig i feithrin amgylchedd o les, parch a thwf proffesiynol i'n holl staff a'n gwirfoddolwyr.

Os ydych chi'n angerddol am gefnogi twf criced ac yn awyddus i helpu i gyflwyno profiadau ystyrlon a chynhwysol i bawb, yn unol â'n gweledigaeth strategol Criced, Gêm i Bawb, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

I Wneud Cais:

Rhaid i chi fod wedi'ch lleoli yn y DU ac yn meddu ar yr hawl i weithio yn y DU i wneud cais am y swydd hon.

Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm a'i dychwelyd i sandie.keane@cricketwales.org.uk ynghyd â llythyr eglurhaol erbyn hanner dydd, 7th Ebrill

Cyfweliadau wyneb yn wyneb i'w cynnal ar 16/17 Ebrill 2026

Noder: os nad ydych wedi clywed gennym erbyn 10 Ebrill 2026, nid yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus wrth symud ymlaen i'r cam nesaf.

Am fanylion ynghylch ein hymrwymiad i Recriwtio'n Ddiogel, gweler [yma](#)

DIOGELU

Mae Criced Cymru yn credu bod Diogelu yn elfen hanfodol sy'n greiddiol i bopeth a wnawn. Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys ym mhob agwedd ar eu cyfranogiad, ac mae hyn yn golygu sicrhau bod y bobl gywir yn gweithio o fewn ein sefydliad drwy ddilyn proses recriwtio ddiogel gadarn.

Mae Criced Cymru yn ymdrechu i wneud criced yng Nghymru yn le diogel a phleserus i bawb gael profiad ohono ar bob lefel o'r gêm.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd cyfartal. Er y byddwn bob amser yn penodi ar sail teilyngdod, rydym yn annog ceisiadau'n arbennig gan grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli ym maes criced – yn enwedig menywod, pobl o gymunedau amrywiol ethnig, neu'r rhai ag anabledd.